Pecyn Dogfen Cyhoeddus


| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau | Dyddiad: | Dydd Gwener, 28 Ebrill 2023 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |


Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 4 MAI 2023** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2023 (copi yn amgaeedig).

**5 STRATEGAETH ARWYDDION I DWRISTIAID SIR DDINBYCH DRAFFT** (Tudalennau 17 - 44)

I ystyried adroddiad gan Mike Jones, Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd (copi yn amgaeedig) ar y Strategaeth Arwyddion i Dwristiaid drafft - yn cynnwys ffynonellau ariannu posibl a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyflawni'r Strategaeth.

**6 GWEITHGOR RISG O LIFOGYDD** (Tudalennau 45 - 52)

I dderbyn diweddariad ar ganlyniad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoli Risg o Lifogydd ac ystyried adroddiad (copi yn amgaeedig) gan Andy Clark, Pennaeth Dros Dro Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Tim Towers, Rheolwr Risg ac Asedau ynglŷn â'r camau nesaf arfaethedig.

**7 RHAGLEN WAITH CRAFFU** (Tudalennau 53 - 74)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Huw Williams (Cadeirydd)
Michelle Blakeley-Walker
Pauline Edwards
James Elson
Jon Harland
Alan James

Karen Anne Edwards (Is-Gadeirydd)
Brian Jones
Delyth Jones
Merfyn Parry
Cheryl Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
*(*dileuer un)*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

*(Gweler y nodyn isod)**

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**., Dydd Iau, 9 Mawrth 2023 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

**Y Cynghorwyr**: Karen Edwards (Is-Gadeirydd), Pauline Edwards, James Elson, Jon Harland, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Merfyn Parry, Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd).
**Arsylwyr-** Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Gareth Sandilands ac Andrea Tomlin.

## HEFYD YN BRESENNOL

**Swyddogion:** Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi (TW), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd (GR), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (GO), Uwch Swyddog Cefn Gwlad (DS), Swyddog Maes Rhostiroedd (GB), Rheolwr Prosiect Cynllunio Strategol (LR) a Rheolwr Dros Dro Ailgylchu Gwastraff (JL), Cydlynwyr Craffu (RE a KE), Uwch Weinyddwr Pwyllgorau (KJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (NH).

**Cynrychiolydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru-** Tim Owen
**Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru-** Rhys Ellis

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio a'r Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant. Gwahoddwyd y ddau i fynychu'r cyfarfod i gyflwyno eitemau o'u portffolios. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu mynychu oherwydd eu bod wedi ymrwymo i gyfarfodydd eraill a drefnwyd ymlaen llaw.

## 2 DATGAN CYSYLLTIADAU

**Eitem 6, 'Adroddiad Cynnydd ar Brosiect Rhostiroedd Sir Ddinbych':** Datganodd y Cynghorydd Merfyn Parry gysylltiad personol yn yr eitem hon, fel 'porwr a enwir' ym Moel y Parc. Cadarnhaodd nad oedd yn arfer yr hawliau pori hynny neu'n cael unrhyw fudd ariannol ohonynt.

Datganodd y Cynghorydd Huw Williams (Cadeirydd) gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon, fel perchennog praidd a oedd yn pori ar Moel Famau. Ar sail hynny, dywedodd y byddai'n gadael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem hon ac y byddai'r Is-gadeirydd yn cyflawni'r dyletswyddau cadeirio yn ei absenoldeb.

Yn ystod eitem 6, datganodd y Cynghorydd Gareth Sandilands gysylltiad personol yn y drafodaeth yn rhinwedd ei swydd fel un o gynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi eu codi gyda Chadeirydd y Pwyllgor cyn cychwyn.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023.

Felly:

***Penderfynodd y Pwyllgor*: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.**

Materion yn codi:
Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu fod Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu (GCIGC) wedi cymeradwyo cais ar gyfer darparu adroddiad dilynol ar 'Ymgysylltu â Fforwm Gofal Cymru a Darparwyr Gofal yn Sir Ddinbych' mewn perthynas â darpariaeth gofal cymdeithasol a phennu ffioedd i'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn 2023. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023.

## 5 CAM-DRIN CŴN

Cyflwynodd Glesni Owen, Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd, adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Pwyllgor.

Roedd yr adroddiad yn edrych ar faint o gŵn gafodd eu gwerthu'n gyfreithlon ac anghyfreithlon yn Sir Ddinbych (yn benodol yn ystod pandemig COVID-19)- gan gynnwys nifer y cwynion a dderbyniwyd, nifer y cwynion a ddaeth i law, a archwiliwyd ac a gadarnhawyd a sut mae gwahanol asiantaethau yn cydweithio i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a riportiwyd.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 yn disodli Deddf Bridio Cŵn 1973 yng Nghymru ac yn darparu trwydded gan Awdurdodau Lleol (ALl) i unigolion sydd yn rhan o fridio cŵn. Cyflwynodd y rheoliadau newydd feini prawf llymach i sefydliadau bridio a sefydlwyd bod cymhareb gofalwr a chi yn gorfod bod o leiaf un aelod o staff llawn amser i 20 o gŵn oedd yn oedolion. Y rheoliadau oedd y cyntaf o'r fath yn y DU, ac er bod gan nifer o sefydliadau ac elusennau lles wahanol safbwyntiau ar gynnwys y rheoliadau, roeddynt yn cael eu croesawu'n eang. Ers cyflwyno'r rheoliadau, mae pryderon parhaus ynghylch y safonau mewn rhai eiddo trwyddedig yng Nghymru, a'r adnoddau ac arbenigedd sydd ar gael o fewn Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Ym mis Medi 2021, daeth Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 i rym. Newidiodd y Rheoliadau hyn y trefniadau trwyddedu ar gyfer gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes yng Nghymru, a oedd yn cynnwys gwaharddiad ar werthiant trydydd parti masnachol o gŵn a chathod bach. Roedd gwneud y gorau o safonau lles ar draws Cymru yn flaenoriaeth a bwriad y Rheoliadau newydd oedd hyrwyddo bridio cyfrifol a sicrhau bod cŵn a chathod bach yn cael eu bridio mewn amodau addas.

Ar hyn o bryd, roedd 13 bridiwr cŵn trwyddedig yn Sir Ddinbych. Roedd trwyddedau'n cael eu hadolygu'n flynyddol, gan gynnwys ymweliad gan Swyddog Lles Anifeiliaid a chyswllt rheolaidd â milfeddyg annibynnol.

Amlygwyd, er bod nifer o'r cwynion a dderbyniwyd yn Sir Ddinbych yn ymwneud â honiadau o fridio anghyfreithlon/didrwydded, bod angen mwy o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru (LlC) er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i ymchwilio i fridio cŵn yn anghyfreithlon. Roedd LlC wedi darparu cyllid i alluogi sefydlu Tîm Cenedlaethol o Swyddogion Lles Anifeiliaid er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i ymchwilio i honiadau o fridio anghyfreithlon neu dorri amodau trwyddedu. Defnyddiodd Sir Ddinbych wasanaethau'r tîm cenedlaethol i'w helpu ag ymchwilio i'r nifer fechan o fridwyr didrwydded posibl yn y sir. Gwnaed y cais hwn am gefnogaeth gan fod adnoddau staffio'r Cyngor yn gyfyngedig ar gyfer ymgymryd â'r gwaith hwn.

Eglurodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd bod ail ran yr adroddiad yn edrych ar effaith y pandemig ar Gŵn Crwydr a'u heffaith ar Ganolfannau Achub Anifeiliaid. Cysylltwyd â dwy Ganolfan Achub Elusennol leol i gael clywed am eu profiadau ac effaith y pandemig ar eu Gwasanaethau. Ni chafwyd ymateb gan un elusen, ond cafwyd gwybodaeth ddefnyddiol gan North Clwyd Animal Rescue (NCAR). Roedd y wybodaeth a gafwyd gan NCAR a'n Gwasanaeth Warden Cŵn ein hunain yn dangos bod gostyngiad sylweddol mewn cŵn crwydr a chŵn yn cael eu trosglwyddo yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg bod y ffigyrau a ddarparwyd yn atodiad 2 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) bellach ar gynnydd i lefelau cyn y pandemig. Cadarnhaodd NCAR fod ganddynt dros 400 o gŵn ar restr aros yn disgwyl i gael eu trosglwyddo ac mai dyma'r nifer uchaf ers cyn y pandemig. Roedd tua 100 o gŵn ar y rhestr aros cyn y pandemig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd am yr adroddiadau ac roedd yn croesawu cwestiynau gan Aelodau.

Gofynnodd Aelodau sut oedd yr Argyfwng Costau Byw wedi effeithio ar allu rhai preswylwyr i fwydo'u cŵn. Dywedodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd bod Banciau Bwyd yn aml yn darparu bwyd ci, ond roedd hyn yn ddibynnol ar gyfraniadau gan y cyhoedd. Roedd elusennau lleol megis NCAR yn cynnig cymorth mewn rhai achosion. Byddai'r elusen People's Dispensary for Sick Animals (PDSA) yn cynorthwyo â chostau triniaethau milfeddygol ac ati ar gyfer anifeiliaid, pe bai'r perchnogion yn profi caledi ariannol.

Cafwyd cwestiynau ynghylch sut y gallai'r cyhoedd roi gwybod am bryderon ynghylch achosion honedig o fridio cŵn yn anghyfreithlon. Dywedodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd wrth yr Aelodau y gallai'r cyhoedd fynd i wefan Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) a bod gwybodaeth ynghylch rhoi gwybod am unrhyw

faterion ar gael yno. Fel arall, gallai'r cyhoedd gysylltu â Safonau Masnach, trwy Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid y Cyngor, ac y byddai eu pryderon yn cael eu hymchwilio.

Cafwyd cwestiynau ynghylch y broses o Fridwyr Cŵn yn cael trwydded ac a oedd yna unrhyw asesiadau cyn bod yn berchen ar gi. Dywedodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd bod disgwyl i Fridwyr Cŵn gynnal eu gwiriadau eu hunain ynghylch addasrwydd prynwyr. Roedd gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor ynghylch y camau y dylai darpar brynwyr cŵn eu dilyn cyn prynu ci. Roedd y gofyniad i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n berchen ar gi gael trwydded wedi'i ddiddymu rai blynyddoedd yn ôl.

Gofynnwyd pa adnoddau oedd ar gael gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer mynd i'r afael â Bridio Cŵn yn anghyfreithlon. Eglurodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad bod tîm bach o 3 swyddog lles anifeiliaid. Yn ddiweddar, roedd y tîm wedi gwneud newidiadau er mwyn sicrhau eu bod mor hyblyg â phosibl ar gyfer ymateb i bryderon a dderbynnir yn gyflym.

Holodd yr Aelodau faint o amser a gymerir i ymchwilio i achos o fridio cŵn yn anghyfreithlon ar ôl i bryder gael ei godi. Dywedodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd ei bod hi'n anodd pennu amserlen ar gyfer hyn. Fel arfer, byddai'r tîm yn dechrau ymchwilio i'r pryder a godwyd mewn ychydig ddyddiau. Roedd pob achos yn unigryw ac mae'r amser sydd ei angen ar gyfer casglu tystiolaeth ddibynadwy ar gyfer symud yr achos yn ei flaen yn amrywio. Yn hynny o beth, roedd gwasanaethau'r Tîm Cenedlaethol o Swyddogion Trwyddedu Anifeiliaid yn hynod werthfawr, gan fod ganddynt wybodaeth werthfawr a'u bod yn gallu ymgymryd â gwaith ymchwilio i gefnogi gwaith yr awdurdod lleol wrth ymchwilio i achosion honedig o fridio yn anghyfreithlon.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hadroddiad, am ateb cwestiynau'r aelodau a phwysleisiodd bwysigrwydd y gwaith a gwblhawyd ganddynt.

Felly:

***Penderfynodd y Pwyllgor**: yn amodol ar y sylwadau uchod –*

***(i)** dderbyn yr adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y drafodaeth; a*

***(ii)** chefnogi'r gwaith a wneir gan y Cyngor a'r gwaith a ddarperir mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau eraill, er mwyn sicrhau hyfywedd masnachwyr sydd â thrwydded briodol i weithredu yn Sir Ddinbych, gan leihau dioddefaint i'r anifeiliaid.*

## 6 ADRODDIAD CYNNYDD AR BROSIECT RHOSTIROEDD SIR DDINBYCH

Cyflwynodd David Shiel, Swyddog Cefn Gwlad, yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Pwyllgor.

Roedd yr adroddiad yn monitro cynnydd yn erbyn amcanion Prosiect Rhostiroedd Sir Ddinbych a sefydlwyd fel un o argymhellion Adolygiad Tân Mynydd Llandysilio yn 2019.

Roeddent yn feysydd allweddol o weithgaredd a gafodd eu cwmpasu yn y 2 flynedd ddiwethaf. Bu'r Bartneriaeth bresennol â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn hynod effeithiol o ran rhannu gwybodaeth gydweithredol. Roedd disgwyl i Bartneriaeth CNC ddod i ben ym mis Awst 2023 ac roedd trafodaethau ar y gweill i geisio ymestyn y Bartneriaeth.

Defnyddiwyd sawl dull i alluogi adfer difrod y tân ar y mynydd a rhoddwyd y manylion canlynol:-

- Defnyddiwyd Grug i amddiffyn y pridd rhag cael ei erydu gan yr elfennau a microhinsawdd ar gyfer cytrefu hadau grug yn naturiol. Plannwyd cymysgedd hadau gwair ucheldir hefyd o dan docion grug er mwyn sefydlogi'r pridd ac fel cnwd meithrin ar gyfer planhigion rhostir sy'n cytrefu'n naturiol.
- Roedd arolygon ar y lleiniau'n dangos cryn lwyddiant wrth osod y cymysgedd hadau gwair lle'r oedd y tocion grug wedi'u gwasgaru'n denau. Canfuwyd bod tomwellt grug trwchus yn atal hadau gwair rhag egino ac aildyfu'n naturiol.
- Ym mis Hydref 2021, cafodd ardal 5 hectar o Moel y Faen, a effeithiwyd fwyaf gan y tanau gwyllt, ei hadu gyda chymysgedd o hadau gwair ucheldir. Gan weithio â Chontractwr Arbenigol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Severn Trent Water, cafodd dros 100,000 litr o ddŵr ei bwmpio i gopa Moel y Faen, lle cafodd y slyri hadau hydro eu cymysgu a'u gwasgaru.
- Cafodd 5 hectar arall o rostir hygyrch ar Moel y Faen a Moel y Gamelin eu hadu fel arfer, gan ddefnyddio Tractor Alpaidd arbenigol.
- Roedd colli pridd yn broblem a byddai'n cymryd llawer o flynyddoedd i'w adfer.
- Yn ystod y prosiect, canolbwyntiwyd yn bennaf ar ymgysylltu â'r gymuned ffermio, dysgu am faterion a rhwystrau o ran rheoli'r rhostir a chwilio am ddulliau o ddatrys eu hanghenion. Roedd y Swyddog Maes Rhostiroedd wedi datblygu perthnasoedd gwaith da gyda phorwyr a thirfeddianwyr. Roedd perthynas waith gadarn hefyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, lle cynhaliwyd diwrnodau hyfforddiant ar y cyd a rhoddwyd cyfleoedd i'r Gwasanaeth dreialu offer a dulliau newydd o ymdrin â thanau gwyllt.
- Yn sgil y Prosiect, cafodd tua 140 hectar o Rostir ei reoli ar draws safleoedd yn Sir Ddinbych, yn cynnwys Mwynglawdd a Mynyddoedd Rhiwabon/Llandysilio, Rhostir Llandegla a safleoedd ar Fryniau Clwyd (Parc Gwledig Moel Famau).
- Bu i'r prosiect hefyd alluogi creu fideos a chyfathrebiadau gwybodaeth gyhoeddus amlasiantaethol i'w lansio a'u rhannu'n genedlaethol trwy gyfryngau amrywiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cefn Gwlad am ei adroddiad manwl a chroesawodd gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

Roedd y Cynghorydd Merfyn Parry yn croesawu'r adroddiad a'r gwersi a ddysgwyd o'r gorffennol, yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, roedd yn cwestiynu nad oedd unrhyw sôn am ymgysylltu ag Aelodau lleol ynghylch yr hyn oedd yn digwydd yn yr ardal leol. Yr Aelodau sy'n adnabod eu wardiau orau, felly gallent hwythau gynnig gwybodaeth werthfawr i'r Tîm. Roedd y Swyddog Cefn Gwlad yn croesawu'r ymgysylltiad hwn a dywedodd, er bod y Bwrdd Partneriaeth yn Fwrdd gweithredol, y byddai'n ystyried rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â Grwpiau Ardal leol yr Aelodau fel y bo'n briodol.

Holodd y Cynghorydd Jon Harland pam nad oedd llawer o sôn am blannu coed yn yr adroddiad. Eglurodd y Swyddog Cefn Gwlad fod y rhain yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig a'u bod felly'n destun rheoliadau cadwraeth llym, gan eu bod yn ardaloedd o ddiddordeb ecolegol a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Er, o bosib miloedd o flynyddoedd yn ôl, bod modd plannu coed ar y gweundiroedd a'r rhostiroedd hyn, nid coed oedd y prif gynefin ar y rhostiroedd a chafodd rhai coed eu tynnu, gan fod posib iddynt achosi tannau gwyllt trwy gynyddu'r llwyth tanwydd. Roedd gweundiroedd a rhostiroedd, oherwydd eu natur, yn hynod werthfawr o ran brwydro yn erbyn effeithiau newid hinsawdd, gan eu bod nhw'n ddefnyddiol iawn at ddibenion storio carbon.

Mynegodd yr Aelodau bryderon fod disgwyl i'r bartneriaeth bresennol â CNC ddod i ben ym mis Awst 2023, ac a oedd cynllun yn ei le pe na bai'r Bartneriaeth yn cael ei hymestyn ac na fyddai cyllid yn cael ei sicrhau ar gyfer parhad swydd y Swyddog Maes Rhostiroedd. Dywedodd y Swyddog Cefn Gwlad eu bod wedi ymgynghori â CNC a'u bod yn hynod gefnogol ar hyn o bryd gyda pharhau â'r Prosiect a'r Bartneriaeth.

Diolchodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i'r Aelodau am eu hadborth a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddent yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad a'u gwaith caled parhaus â'r Prosiect.

Cafwyd trafodaeth ar fanteision ac anfanteision plannu coed ar weundiroedd a rhostiroedd er mwyn mynd i'r afael â heriau newid hinsawdd, gan gynnwys y rhwystrau ffisegol a chyfreithiol o ymgymryd ag arferion o'r fath, y potensial sylweddol iddynt arwain at ddiflaniad ecosystem unigryw, sefydledig, yn ogystal â risg uwch o ddinistr sylweddol a achosir gan dannau gwyllt.

Ar ddiwedd y drafodaeth, cafodd yr argymhellion canlynol eu cynnig a'u heilio:

(i) cymeradwyo'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni Prosiect Rhostiroedd Sir Ddinbych a chefnogi'r ymdrechion sydd ar y gweill i ehangu'r bartneriaeth bresennol â Chyfoeth Naturiol Cymru;

(ii) gofyn i swyddogion y Bwrdd Partneriaeth Rhostiroedd rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chynghorwyr lleol yn rheolaidd ynghylch unrhyw waith gweithredol neu benderfyniadau gan y Bwrdd, sy'n effeithio ar eu ward etholiadol; ac
(iii) archwilio cyfleoedd i blannu coed ar rostiroedd yn Sir Ddinbych.

Wedi pleidlais ar bob un o'r uchod, cafodd argymhellion (i) ac (ii) eu cymeradwyo'n unfrydol. Ni chymeradwywyd argymhelliad (iii) oherwydd mwyafrif o 7 pleidlais i 2.

Felly:

***Penderfynodd y Pwyllgor*:** ***yn amodol ar y sylwadau uchod –***

***(i) gymeradwyo'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni Prosiect Rhostiroedd Sir Ddinbych a chefnogi'r ymdrechion sydd ar y gweill i ehangu'r bartneriaeth bresennol â Chyfoeth Naturiol Cymru;***
***(ii) gofyn i swyddogion y Bwrdd Partneriaeth Rhostiroedd rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chynghorwyr lleol yn rheolaidd ynghylch unrhyw waith gweithredol neu benderfyniadau gan y Bwrdd, sy'n effeithio ar eu ward etholiadol.***

**7 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECT AILFODELU'R GWASANAETH GWASTRAFF**

Cyn i'r drafodaeth ar yr eitem hon ddechrau, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi wrth y Pwyllgor bod cyflwyno'r gwasanaeth newydd yn cyd-fynd â model gwasanaeth glasbrint Llywodraeth Cymru (LlC). Dywedodd hefyd nad oedd y depo newydd sy'n cael ei adeiladu, lle byddai'r model Gwasanaeth newydd yn cael ei weithredu, yn rhan o'r adroddiad sy'n cael ei drafod yn y cyfarfod presennol. Roedd disgwyl i adroddiad ar y depo gael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ddiweddarach y mis hwnnw, gydag adroddiad yn cael ei gynnig i'r pwyllgor Craffu yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Amlinellodd y Rheolwr Prosiect Cynllunio Strategol fanylion yr adroddiad Cyflwyno Gwasanaeth Gwastraff Newydd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Pwyllgor.

Byddai'r model 'Didoli ar Ymyl y Palmant' i gasglu gwastraff y cartref i'w ailgylchu yn dechrau ym mis Mawrth 2024. Byddai casgliadau ailgylchu'n newid o fod yn wasanaeth bob pythefnos i wasanaeth wythnosol. Byddai hyn yn rhoi mwy o gapasiti i aelwydydd ailgylchu. Byddai preswylwyr yn derbyn uned bocs troli newydd a sach ychwanegol ar gyfer cardbord. Roedd yr uned bocs troli'n galluogi i wastraff ailgylchadwy'r cartref – fel gwydr, plastig, tuniau/caniau, papur a chardbord – gael ei gasglu wedi ei ddidoli.

Byddai'r newid ar gyfer gwastraff gweddilliol yn digwydd ddechrau haf 2024, yn dilyn cyflwyno'r system ddidoli ar ymyl y palmant. Byddai hyn yn galluogi preswylwyr i ddod yn gyfarwydd â'r system ailgylchu newydd ac i ddangos yr effaith o ran lleihau'r gwastraff gweddilliol. Byddai casglu gwastraff gweddilliol yn newid o gasgliad bob pythefnos i gasgliad bob 4 wythnos. Byddai cartrefi'n derbyn

biniau mwy ar gyfer gwastraff gweddilliol i gynyddu capasiti 33.3%, o 180 litr i 240 litr.

Aeth y Rheolwr Prosiect Cynllunio Strategol yn ei flaen i egluro'r broses o gyflwyno'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff newydd. Byddai'r broses yn cael ei chefnogi gan ymarferion cyfathrebu ac ymgysylltu cadarn â phreswylwyr y sir.

Byddai tua 45,000 o aelwydydd angen uned bocs troli newydd yn barod ar gyfer y newid i 'ddidoli ar ymyl y palmant' ym mis Mawrth 2024. Byddant yn dechrau cael eu danfon i aelwydydd ym mis Tachwedd 2023, a disgwylir cwblhau'r gwaith ddiwedd mis Chwefror 2024. Byddent yn cael eu danfon rhwng dydd Llun a dydd Gwener, a byddai 800 ohonynt yn cael eu danfon bob dydd ar gyfartaledd. Pwysleisiwyd bod y gwaith o osod yr unedau ymyl y palmant newydd at ei gilydd a'u danfon yn waith sylweddol sy'n gofyn am adnoddau sylweddol. Byddai angen mwy o weithwyr ar y gwasanaeth newydd i ymgymryd â'r rowndiau newydd. Byddai'r gweithwyr newydd hyn yn cael eu cyflwyno yn raddol o fis Medi 2023 mewn cyfrannau, i gynorthwyo'r gweithgareddau cyflwyno fel gosod y bocsys troli at ei gilydd a danfon cynwysyddion newydd. Cyfeiriwyd yr Aelodau at gynllun o'r gwaith cyflwyno, a ddosbarthwyd ymlaen llaw, yn Atodiad 1.  Byddai'r aelodau a phreswylwyr yn derbyn mwy o ohebiaeth ynglŷn â'r gwaith cyflwyno i ardaloedd o ddiwedd haf 2023.

Byddai casgliadau gwastraff bwyd a gardd yn aros yr un fath. Byddai gwastraff bwyd yn cael ei gasglu bob wythnos a gwastraff gardd bob pythefnos o hyd. Byddai'r gwasanaeth ailgylchu newydd yn cynnwys gwasanaeth casglu tecstilau estynedig a byddai casgliadau newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer eitemau trydanol bach a batris. Byddai casgliad Cynnyrch Hylendid Amsugnol newydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2023. Gan ei fod yn wasanaeth newydd, mynegwyd bod y galw'n dra anhysbys, ond amcangyfrifwyd y byddai tua 8% o breswylwyr yn debygol o gofrestru ar gyfer y gwasanaeth. Byddai'r gwasanaeth hwn am ddim, ond byddai angen i breswylwyr gofrestru ar gyfer y gwasanaeth.

Dywedodd y Rheolwr Prosiect Cynllunio Strategol fod y Tîm Cyfathrebu'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r System Ailgylchu newydd, a'u bod yn cydweithio'n agos, i sicrhau bod preswylwyr yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y system newydd yn rheolaidd, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno mor effeithlon â phosibl.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Prosiect Cynllunio Strategol am ei hadroddiad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Cafwyd trafodaeth bellach ymysg yr Aelodau a chodwyd y materion canlynol:-

- Oherwydd maint y newid i'r system ailgylchu yn y Sir, byddai'n fanteisiol pe bai'r Tîm yn mynychu cyfarfodydd Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i egluro sut mae'r unedau troli newydd yn gweithio.
- Roedd nifer sylweddol o breswylwyr ar gasgliadau bagiau bin du yn unig o hyd a gofynnwyd cwestiynau ynghylch a fyddai modd iddynt ddefnyddio'r unedau troli newydd.
- Amlygwyd y byddai angen cyfathrebu mwy manwl â phreswylwyr, gallai hyn gynnwys addysg mewn ysgolion.

- Codwyd pryderon ynghylch y cyfnod o amser y byddai'n ei gymryd i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru, i ailgylchu 70% o wastraff y cartref.
- Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at gyflwyno cerbydau Trydan ar gasgliadau newydd. Holodd Aelodau ynghylch effeithlonrwydd y rhain.
- Ar hyn o bryd, roedd holl wastraff y cartref yn cael ei gasglu ar ddiwrnod penodol o'r wythnos, mynegwyd pryderon ynghylch y casgliadau newydd a nodwyd yn yr adroddiad.
- Mynegwyd pryderon ynghylch yr unedau troli yn cael eu troi gan wynt ac y gallent ddod yn darged ar gyfer fandaliaeth.
- Mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cynnyrch Hylendid Amsugnol, mynegwyd pryderon ynghylch pa mor gynnil fyddai'r gwasanaeth hwn. Amlygwyd efallai na fyddai llawer o breswylwyr yn cofrestru ar gyfer y gwasanaeth, gan fod ganddynt ormod o gywilydd i wneud hynny.
- Gan na fyddai'r bin gweddilliol yn cael ei gasglu am 4 wythnos, byddai gwastraff anifeiliaid anwes yn sefyllian yn y bin am 4 wythnos, gan greu arogl ac o bosibl denu plâu.

Diolchodd y Swyddogion i'r Aelodau am eu cwestiynau a rhoddwyd yr ymatebion canlynol:-

- Roedd y Cynllun Cyfathrebu i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu wedi'i gyflwyno eisoes i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGC), gan ei bod hi'n bwysig fod y broses gyflwyno'n eglur i Aelodau er mwyn iddynt eu hyrwyddo â'u preswylwyr.
- Byddai llawer mwy o gartrefi yn Sir Ddinbych yn gallu cael uned bocs troli o gymharu â'r nifer sydd gyda'r bin glas cymysg presennol, gan fod cerbydau trydan newydd llai yn gallu cael mynediad at strydoedd/eiddo a maint cyffredinol yr unedau troli.
- Byddai amserlen gweithgareddau'n cael ei diweddaru'n rheolaidd yn y Cynllun Cyfathrebu cyn mis Mawrth 2024 ac roedd trafodaethau ar y gweill ynghylch cynnwys sefydliadau addysgol.
- Dywedodd y Rheolwr Prosiect y byddai'n archwilio cyfleoedd posib ar gyfer cynnwys y trydydd sector yn y cynllun cyfathrebu/ymgysylltu, gan geisio sicrhau bod unigolion a grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn derbyn ac yn deall y wybodaeth ynghylch y newidiadau.
- Byddai'n anodd cyrraedd y targed 70% yn y flwyddyn gyntaf o gyflwyno'r system ailgylchu newydd. Roedd angen bod yn realistig ynghylch cyrraedd y targed 70%, ond roedd dyheadau amlwg ar gyfer cyrraedd hyn yn y tymor canolig.
- Byddai cerbydau trydan newydd yn cael eu cyflwyno pan fyddai'r system ailgylchu newydd yn cael ei rhoi ar waith. Derbyniwyd adroddiadau gan awdurdodau eraill am anawsterau â'r cerbydau, ond cafodd yr anawsterau hyn eu datrys.
- Byddai casgliadau gwastraff o bob aelwyd yn parhau ar un diwrnod penodol o'r wythnos. Byddai hyn yn osgoi dryswch.
- Byddai gofyn i breswylwyr roi eu hunedau troli allan ar fore'r casglu ac nid y noson cynt. Ychydig iawn o gwynion a gofnodwyd gan Gynghorau

Cyfagos, lle’r oedd yr unedau troli ar waith ac nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw fandaliaeth.

- Roeddent yn chwilio am ddatrysiadau technolegol posibl, gyda’r nod o geisio sicrhau gwasanaeth casglu tecstilau hyfyw, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig.
- Byddai’r cynwysyddion Cynnyrch Hylendid Amsugnol yn ddu a phorffor, ac wedi’u dylunio i fod mor gynnil â phosibl. Cynhaliwyd ymchwil ar hyn a ni chodwyd unrhyw gwynion am gywilydd neu stigma mewn ardaloedd cynghorau lle’r oedd y rhain eisoes ar gael.
- Byddai gwastraff anifeiliaid yn parhau i gael ei roi yn y bin gwastraff gweddillol, a fyddai’n cael ei gasglu bob 4 wythnos.
- Roeddent yn chwilio am ddatrysiadau storio a chynwysyddion ymarferol ar gyfer eiddo ansafonol.
- Unwaith y byddai wedi’i gyflwyno, amcangyfrifwyd y byddai costau gweithredu’r gwasanaeth newydd, gan gynnwys costau Benthyca Darbodus, yn is na chostau gweithredu’r model presennol.
- Byddai gwasanaeth casglu gwastraff â chymorth yn cael ei ddarparu i’r preswylwyr sydd ei angen neu wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth o hyd.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a’r Amgylchedd mai Prosiect Ailfodelu’r Gwasanaeth Gwastraff oedd y newid Gwasanaeth mwyaf yn hanes Cyngor Sir Ddinbych. Dyma fyddai’r her fwyaf i bawb sy’n rhan o’r gwaith ac roedd cydweithio a chyfathrebu yn allweddol ar gyfer cyflwyno’r Gwasanaeth Casglu Deunyddiau Ailgylchu newydd. Roedd gan Aelodau Etholedig rôl hynod bwysig i’w chwarae o ran rhoi gwybod i breswylwyr am y newidiadau.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Swyddogion am yr adroddiad manwl a diolchodd iddynt am eu gwaith caled parhaus â’r prosiect. Croesawyd diweddariadau parhaus yn y dyfodol gan y Cadeirydd a’r Aelodau.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***Penderfynodd y Pwyllgor*: yn amodol ar y sylwadau uchod**

***(i)*** ***nodi’r cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflwyno’r model gwasanaeth newydd;***

***(ii)*** ***cymeradwyo’r gweithgareddau sydd wedi’u nodi ar gyfer eu cyflawni yn y dyfodol fel rhan o’r paratoadau ar gyfer gweithredu’r gwasanaeth newydd; ac***

***(iii)*** ***ar ôl darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2), gofyn i’r Asesiad o Effaith gael ei adolygu a’i ddiweddaru’n rheolaidd wrth i’r prosiect ddatblygu.***

**8 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Arweiniodd y Cydlynydd Craffu yr Aelodau trwy’r adroddiad Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol Craffu (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Yn ystod y cyflwyniad, cyfeiriwyd at

adroddiadau ychwanegol arfaethedig yn ymwneud â Phrosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff, a fyddai'n cael eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGA) yn ei gyfarfod yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Pe bai'r GCIGA yn caniatáu eu cynnwys ar gyfer craffu, byddent yn fwy tebygol o gael eu cynnwys yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Dywedodd y Cydlynydd Craffu fod y Cabinet ym mis Rhagfyr 2022 wedi cymeradwyo Proses Gyfalaf Newydd ac wedi cefnogi'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Grŵp Craffu Cyfalaf newydd. Byddai hyn yn debyg i'r hen Grŵp Buddsoddi Strategol a oedd mewn bodolaeth yn ystod tymor y Cyngor blaenorol. Cafwyd cais y dylai un cynrychiolydd o bob Pwyllgor Craffu gael ei benodi i wasanaethu ar y Grŵp hwn. Byddai chwe chyfarfod y flwyddyn a disgwylir i'r cynrychiolydd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl iddo/iddi fod yn y cyfarfod. Felly, gofynnwyd i un cynrychiolydd ac un dirprwy gynrychiolydd gael eu henwebu, eu dewis a'u cytuno gan y Pwyllgor.

Croesawodd y Cadeirydd enwebiadau gan y Pwyllgor. Enwebodd y Cynghorydd James Elson ei hun, cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Huw Williams ac roedd holl aelodau'r Pwyllgor yn cytuno.

Cyfeiriodd y Cydlynydd Craffu at e-bost blaenorol a anfonodd at Aelod ynghylch Grwpiau Herio Gwasanaeth. Roedd 9 gwasanaeth angen cynrychiolydd o'r Pwyllgor i fynychu cyfarfod a gynhelir unwaith y flwyddyn. Byddai'r aelod Pwyllgor yna'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau. Cytunwyd ar y Cynrychiolwyr Herio Gwasanaeth canlynol:

- *Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol - y Cynghorydd Jon Harland;*
- *Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaeth Cefn Gwlad - y Cynghorydd Pauline Edwards;*
- *Cyllid ac Archwilio – y Cynghorydd James Elson;*
- *Gwasanaethau Cymorth Cymunedol – y Cynghorydd Alan James; ac*
- *Addysg a Gwasanaethau Plant – y Cynghorydd Delyth A Jones.*

Byddai angen penodi cynrychiolwyr ar gyfer y 4 Grŵp Herio Gwasanaeth sy'n weddill, a byddai hyn yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau maes o law.

Felly:

***<u>Penderfynodd yr Aelodau</u>: yn amodol ar y sylwadau uchod***

***(i)*** ***dderbyn yr adroddiad a chadarnhau Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad 1;***
***(ii)*** ***penodi'r Cynghorydd James Elson fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Craffu Cyfalaf, a phenodi'r Cynghorydd Huw Williams fel dirprwy gynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp; a***
***(iii)*** ***phenodi'r aelodau a enwir isod i wasanaethu fel cynrychiolwyr y Pwyllgor ar y Grwpiau Her Gwasanaeth canlynol:***

***Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol - y Cynghorydd Jon Harland;***
***Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaeth Cefn Gwlad - y Cynghorydd Pauline Edwards;***
***Cyllid ac Archwilio – y Cynghorydd James Elson;***
***Gwasanaethau Cymorth Cymunedol – y Cynghorydd Alan James; ac***
***Addysg a Gwasanaethau Plant – y Cynghorydd Delyth A Jones.***

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dim.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion a'r Aelod am fynychu'r cyfarfod.

**Daeth y cyfarfod i ben am:** 13:00

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **4 Mai 2023** |
| **Aelod Arweiniol** | **Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio, y Cynghorydd Wyn Mullen-James.** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, Emlyn Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd, Mike Jones** |
| **Teitl** | **Cynllun Drafft Arwyddion Twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y Cynllun Drafft Arwyddion Twristiaeth. (Cyfeiriwyd at hyn yn flaenorol fel y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran prosiectau arwyddion twristiaeth brown yn Sir Ddinbych.

2.2. Ceisio barn y Pwyllgor ar y Cynllun Arwyddion Twristiaeth arfaethedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad A) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.2 Bod y pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau sydd ynghlwm ag o, ac yn rhoi sylwadau ar y Cynllun Arwyddion Twristiaeth arfaethedig.

## 4. Manylion yr adroddiad

<u>Cefndir</u>

4.1. Darperir arwyddion cyfeirio twristiaid brown i gynorthwyo ymwelwyr i ddod o hyd i atyniadau a chyfleusterau twristiaid, lle mae niferoedd sylweddol o ymwelwyr yn debygol.

4.2. Cyngor Sir Ddinbych yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer yr holl ffyrdd nad ydyn nhw'n gefnffyrdd yn Sir Ddinbych. Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer yr holl gefnffyrdd yn Sir Ddinbych, sef yr A55, yr A494 a'r A5.

4.3. Fel arfer mae arwyddion cyfeirio twristiaid yn cael eu hariannu gan weithredwr yr atyniad neu'r cyfleuster twristiaeth.

4.4. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mawrth 2020 ynghylch datblygu Strategaeth Arwyddion Twristiaeth Cyngor Sir Ddinbych. Roedd y Strategaeth yn weithred o fewn Strategaeth Twristiaeth y Cyngor. Mae copi o adroddiad mis Mawrth 2020 yn Atodiad B.

4.5. Roedd y strategaeth arwyddion Twristiaeth yn cynnwys camau gweithredu i ddatblygu cynlluniau arwyddion ar yr A55 ar gyfer Dyffryn Clwyd, y Rhyl a Phrestatyn. Roedd hefyd yn cynnwys camau gweithredu i adolygu arwyddion cyfeirio twristiaid yn Rhuthun a Dyffryn Dyfrdwy; datblygu llwybrau twristaidd golygfaol; a darparu arwyddion "dilynol" addas i ymwelwyr ar ôl iddynt gyrraedd cyrchfannau twristiaid.

<u>Diweddariad ar y camau gweithredu yn y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth</u>

4.6. Mae'r cynllun arwyddion brown i dwristiaid ar gyfer Dyffryn Clwyd wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Mae ein tîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau wedi bod yn gweithio i hyrwyddo Dyffryn Clwyd i ategu'r ddarpariaeth o arwyddion brown. Mae hyn yn cynnwys pamffled newydd ar gyfer 2023, *Darganfod Sir Ddinbych ar Lwybrau*, sy'n cynnwys adran sy'n hyrwyddo Llwybr Dyffryn Clwyd. Mae copïau o'r pamffled newydd ar-lein yn: https://www.northeastwales.wales/cy/booklets/discover-denbighshire-by-trails/ (Ewch i dudalen 16 y pamffled i weld y cynnwys)

4.7. Cafwyd cyllid hefyd i newid arwydd brown allweddol y Rhyl ar y ffordd tua gorllewin yr A55 cyn Cyffordd 27 (Cyffordd Talardy), ac i ddarparu arwydd tebyg ar y ffordd tua'r dwyrain cyn Cyffordd 23a (Cyfnewidfa Pensarn). Darperir llun o arwydd brown allweddol presennol y Rhyl ar ffordd orllewinol yr A55 yn Atodiad C. Gall gwaith ddechrau ar hyn bellach gan fod cynllun Dyffryn Clwyd wedi'i gwblhau.

4.8. Mae gwaith dylunio cychwynnol wedi'i wneud ar ddarparu arwydd brown allweddol Prestatyn ar ffordd yr A55 tua'r dwyrain cyn Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol). Fodd bynnag, mae'r arwyddion presennol a'r ffaith bod Cyffordd 24 yn agos at Gyffordd 23a yn golygu y byddai'r arwydd gryn dipyn yn ddrutach nag arfer, oherwydd yr angen i adleoli nifer o arwyddion eraill.

4.9. Mae gwaith i ddatblygu arwyddion dilynol ar gyfer ymwelwyr sy'n cyrraedd cyrchfannau twristiaeth wedi'i gwblhau gan y tîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys darparu arwyddion gwybodaeth o fewn meysydd parcio ac mewn lleoliadau allweddol eraill, darparu Pwyntiau Gwybodaeth i Dwristiaid ledled y sir ac ariannu Canolfannau Croeso yn y Rhyl a Llangollen. Mae wyth map Llwybr Tref ar gael ar hyn o bryd a chawsant eu diweddaru yn chwarter cyntaf 2023.

4.10. Yn anffodus, mae pwysau llwyth gwaith o brosiectau eraill wedi golygu nad oes unrhyw gynnydd wedi’i wneud i adolygu arwyddion twristiaeth brown ar yr A494 yn Rhuthun.

4.11. Mae rhywfaint o waith dylunio cychwynnol wedi'i wneud i adolygu arwyddion cyfeirio twristiaid o fewn ac ar y ffordd i Langollen.

4.12. Nid yw'r gwaith o ddatblygu arwyddion i ategu “Ffordd Cymru”, wedi mynd yn ei flaen oherwydd pwysau llwyth gwaith.

<u>Cynllun Arwyddion Twristiaeth Arfaethedig</u>

4.13. Yn y tair blynedd sydd wedi mynd heibio ers i'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth gael ei hystyried ddiwethaf gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau; rydym wedi bod drwy bandemig ac mae nifer o newidiadau i'n bywydau bob dydd. Bu mwy o ddefnydd o dechnoleg, er enghraifft ar gyfer cynnal cyfarfodydd fideo neu drwy ddefnydd cynyddol o daliadau digyswllt megis ffonau clyfar.

4.14. Mae defnydd cynyddol o loerenni llywio, drwy ddefnyddio apiau ffôn clyfar yn arbennig. Mae gan apiau o'r fath y fantais o allu ailgyfeirio traffig mewn amser real, drwy ymateb i amodau traffig newidiol, er enghraifft.

4.15. Mae’r cynnydd sylweddol mewn costau deunyddiau adeiladu a chostau tanwydd yn cynyddu cost cynlluniau arwyddion traffig yn sylweddol.

4.16. Mae awydd cynyddol hefyd ymhlith grwpiau ymgyrchu i leihau maint y dodrefn stryd er mwyn lleihau'r effaith weledol ar yr amgylchedd. Mae llai o arwyddion

hefyd yn lleihau nifer yr asedau materol y mae'n rhaid i ni eu cynnal fel awdurdod priffyrdd.

4.17. Am y rhesymau uchod, cynigir mabwysiadu Cynllun Arwyddion Twristiaeth newydd, symlach sy'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed hyd yma, a'r newidiadau i'r ffyrdd y mae pobl yn cyrraedd atyniadau twristiaeth.

4.18. Mae’r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y Cynllun Arwyddion Twristiaeth newydd fel a ganlyn:

- Sefydlu arwyddion twristiaeth brown allweddol yr A55 ar gyfer y Rhyl ar y ffyrdd i'r dwyrain a’r gorllewin ar gyffyrdd 23a a 27, yn y drefn honno.
- Datblygu cynnig ar gyfer arwydd brown allweddol i Brestatyn ar ffordd yr A55 tua’r dwyrain ar gyffordd 24.
- Datblygu’r adolygiad o'r arwyddion twristiaeth brown wrth ddynesu at Langollen ac o fewn y dref.
- Adolygu arwyddion y gefnffordd bresennol ar gyfer Rhuthun a Chorwen

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd gwell arwyddion twristiaeth brown ar gyfer cyrchfannau allweddol yn cyfrannu at y themâu isod yn y Cynllun Corfforaethol drwy wella arwyddion i gyrchfannau twristiaeth allweddol, a helpu gyda rheoli traffig ymwelwyr yn y broses.

- Sir Ddinbych ffyniannus
- Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu’n well

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae mwyafrif y cyllid yn barod ar gyfer darparu arwyddion A55 i’r Rhyl. Fodd bynnag, bydd angen adolygu hyn yn sgil costau adeiladu uwch oherwydd chwyddiant, yn enwedig cynnydd mewn costau dur a thanwydd.

6.2. Bydd gwaith i ddatblygu ac adolygu arwyddion ar gyfer Prestatyn, Rhuthun a Llangollen fel y disgrifir yn dibynnu ar ddefnyddio peth o'r dyraniad blynyddol cyfalaf Atal Traffig. Lle mae atyniadau twristiaeth preifat wedi'u cynnwys ar arwyddion, byddai disgwyl i'r gweithredwr gyfrannu at gostau arwyddion newydd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Daw'r Asesiad o'r Effaith ar Les i'r casgliad y bydd y Cynllun yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Les i'w weld yn Atodiad A.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mawrth 2020. Mae copi o'r adroddiad i'w weld yn Atodiad B.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae hi'n bwysig bod gwasanaethau yn aros o fewn eu cyllidebau yn ystod y cyfnod yma o gyfyngiadau ariannol. Mae dyraniadau ar gyfer pob gwariant yn y dyfodol yn cael eu hadolygu ar gyfer 24/25 a thu hwnt.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gallai methu â newid arwydd brown presennol y Rhyl arwain at fethiant strwythurol yr arwydd presennol oherwydd ei oedran. Mae cyflwr presennol yr arwydd yn wael ac nid yw'n rhoi argraff dda i ymwelwyr.

10.2. Byddai methu â datblygu'r camau gweithredu pellach a nodwyd yn y Cynllun Arwyddion Twristiaeth arfaethedig yn achos o fethu â helpu'r atyniadau allweddol i gyrraedd eu llawn botensial.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Mae Adran 7.4 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Craffu o ran y mater hwn.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Tourism Signage Plan:
# Well-being Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of the proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

**Assessment Number:** 1195

**Brief description:** Tourism Signage Plan for Denbighshire

**Date Completed:** 19/04/2023 23:34:46 Version: 1

**Completed by:** Mike Jones

**Responsible Service:** Planning, Public Protection and Countryside Services

**Localities affected by the proposal:** Whole County,

**Who will be affected by the proposal?** Motorists, visitors, operators or some tourist attractions and facilities

**Was this impact assessment completed as a group?** No

## Summary and Conclusion

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

**Score for the sustainability of the approach**

**2 out of 4 stars**

**Actual score : 22 / 36.**

**Summary for each Sustainable Development principle**

**Long term**

This Tourism Signage Plan represents a reduction in the number of new brown tourist signs that were proposed in the 2018 Tourism Signage Strategy. This reflects that a desire to not increase the number of highway assets that need maintaining.

**Prevention**

Has neutral impact

**Integration**

Has neutral impact

**Collaboration**

Has neutral impact

**Involvement**

Has neutral impact

**Summary of impact**

| Well-being Goals | Overall Impact |
|---|---|
| A prosperous Denbighshire | Positive |
| A resilient Denbighshire | Positive |
| A healthier Denbighshire | Neutral |
| A more equal Denbighshire | Neutral |
| A Denbighshire of cohesive communities | Positive |
| A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language | Positive |
| A globally responsible Denbighshire | Positive |

**Main conclusions**

Project has many positive notes. Minimising signage clutter and thus the number of new signs required, plus minimising the number of signs to be maintained in the future is positive.

## The likely impact on Denbighshire, Wales and the world.

### A prosperous Denbighshire

#### Overall Impact

Positive

#### Justification for impact

Positive in terms of economic development

#### Further actions required

Recycle old signs appropriately.

#### Positive impacts identified:

#### A low carbon society

Keeping signage to a minimum reduces future maintenance requirements potentially reducing carbon emissions associated with manufacturing, construction and transport

#### Quality communications, infrastructure and transport

The proposal helps to manage visitor traffic for certain attractions

#### Economic development

The proposal helps guide visitors to tourist attractions that meet the criteria in terms of visitor numbers and facility type

#### Quality skills for the long term

N/A

#### Quality jobs for the long term

N/A

**Childcare**

N/A

**Negative impacts identified:**

**A low carbon society**

New signage that is being erected will result in carbon emissions associated with manufacturing and construction

**Quality communications, infrastructure and transport**

[TEXT HERE]

**Economic development**

[TEXT HERE]

**Quality skills for the long term**

[TEXT HERE]

**Quality jobs for the long term**

[TEXT HERE]

**Childcare**

[TEXT HERE]

**A resilient Denbighshire**

**Overall Impact**

Positive

**Justification for impact**

Recycling of old signs

**Further actions required**

Minimise new signage wherever possible

**Positive impacts identified:**

**Biodiversity and the natural environment**

N/A

**Biodiversity in the built environment**

N/A

**Reducing waste, reusing and recycling**

Old signs will be recycled

Number of new signs is being reduced

**Reduced energy/fuel consumption**

N/A

**People's awareness of the environment and biodiversity**

N/A

**Flood risk management**

N/A

**Negative impacts identified:**

**Biodiversity and the natural environment**

N/A

**Biodiversity in the built environment**

N/A

**Reducing waste, reusing and recycling**

[TEXT HERE]

**Reduced energy/fuel consumption**

[TEXT HERE]

**People's awareness of the environment and biodiversity**

[TEXT HERE]

**Flood risk management**

[TEXT HERE]

**A healthier Denbighshire**

**Overall Impact**

Neutral

**Justification for impact**

N/A

**Further actions required**

N/A

**Positive impacts identified:**

**A social and physical environment that encourage and support health and well-being**

N/A

**Access to good quality, healthy food**

N/A

**People's emotional and mental well-being**

N/A

**Access to healthcare**

N/A

**Participation in leisure opportunities**

N/A

**Negative impacts identified:**

**A social and physical environment that encourage and support health and well-being**

N/A

**Access to good quality, healthy food**

N/A

**People's emotional and mental well-being**

N/A

**Access to healthcare**

N/A

**Participation in leisure opportunities**

N/A

**A more equal Denbighshire**

**Overall Impact**

Neutral

**Justification for impact**

N/A

**Further actions required**

N/A

**Positive impacts identified:**

**Improving the well-being of people with protected characteristics. The nine protected characteristics are: age; disability; gender reassignment; marriage or civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation**

N/A

**People who suffer discrimination or disadvantage**

N/A

**People affected by socio-economic disadvantage and unequal outcomes**

N/A

**Areas affected by socio-economic disadvantage**

N/AN/A

**Negative impacts identified:**

**Improving the well-being of people with protected characteristics. The nine protected characteristics are: age; disability; gender reassignment; marriage or civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation**

N/A

**People who suffer discrimination or disadvantage**

N/A

**People affected by socio-economic disadvantage and unequal outcomes**

N/A

**Areas affected by socio-economic disadvantage**

N/A

**A Denbighshire of cohesive communities**

**Overall Impact**

Positive

**Justification for impact**

Good quality signage helps to manage traffic more effectively

**Further actions required**

Ensure signs are placed in suitable locations where visibility is good

**Positive impacts identified:**

**Safe communities and individuals**

N/A

**Community participation and resilience**

N/A

**The attractiveness of the area**

N/A

**Connected communities**

Good quality signage helps to manage traffic more effectively

**Rural resilience**

N/A

**Negative impacts identified:**

**Safe communities and individuals**

N/A

**Community participation and resilience**

N/A

**The attractiveness of the area**

N/A

**Connected communities**

[TEXT HERE]

**Rural resilience**

N/A

**A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language**

**Overall Impact**

Positive

**Justification for impact**

Bilingual signage and some signage leads to attractions which promote local culture and heritage

**Further actions required**

Not really anything else that can be done to maximise positives in this example

**Positive impacts identified:**

**People using Welsh**

Signs will all be bilingual Welsh above English as per our policy

**Promoting the Welsh language**

Signs will all be bilingual Welsh above English as per our policy

**Culture and heritage**

Signs direct visitors to some of our attractions which help inform people about local culture and heritage

**Negative impacts identified:**

**People using Welsh**

[TEXT HERE]

**Promoting the Welsh language**

[TEXT HERE]

**Culture and heritage**

[TEXT HERE]

**A globally responsible Denbighshire**

**Overall Impact**

Positive

**Justification for impact**

Use of local suppliers

**Further actions required**

Seek to use local sign manufacturers where possible

**Positive impacts identified:**

**Local, national, international supply chains**

Local suppliers and contractors will be used where possible

**Human rights**

N/A

**Broader service provision in the local area or the region**

N/A

**Reducing climate change**

N/A

**Negative impacts identified:**

**Local, national, international supply chains**

[TEXT HERE]

**Human rights**

N/A

**Broader service provision in the local area or the region**

N/A

**Reducing climate change**

N/A

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **12 Mawrth 2020** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Cynghorydd Hugh H. Evans (Arweinydd)/Emlyn Jones (Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad)** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Mike Jones (Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd)** |
| **Teitl** | **Strategaeth Arwyddion Twristiaeth Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am ddatblygu Strategaeth Arwyddion Twristiaeth i Sir Ddinbych. Mae'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth yn un o'r camau a geir yn Strategaeth Twristiaeth Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I roi gwybodaeth am ddatblygu'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth, yn cynnwys adroddiad cynnydd ar gynlluniau arwyddion twristiaeth parhaus.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, yn rhoi arsylwadau ac yn cefnogi bod y gwaith i ddatblygu'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth yn parhau.

3.2. Pe bai'r Pwyllgor yn dymuno, bod adroddiad ar ddrafft terfynol y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth yn dod gerbron y Pwyllgor ddiwedd 2020/dechrau 2021.

# 4. Manylion yr Adroddiad

## Rhagarweiniad

4.1. Rydym ar hyn o bryd yn datblygu Strategaeth Arwyddion Twristiaeth i Sir Ddinbych. Mae angen strategaeth i ddarparu rhywfaint o gyfarwyddyd i nodi cynlluniau arwyddion twristiaeth mewn ffordd gyson a hefyd i gydgrynhoi rhai cynlluniau presennol arwyddocaol yn un strategaeth gyffredinol. Dyma gam a geir yn Strategaeth Twristiaeth Sir Ddinbych.

4.2. Er ei bod yn dal yn y cam drafft, awgrymir y dylai'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth gynnwys yr amcanion a restrir drosodd. Mae'r amcanion hyn wedi'u dewis, naill ai am eu bod yn ymwneud â'r cynlluniau arwyddocaol sydd eisoes yn cael eu datblygu (fel cynllun Dyffryn Clwyd), neu am eu bod yn argymhellion o gyfarfod Pwyllgor Craffu Cymunedau blaenorol, neu am eu bod yn gorfod sicrhau dull cyson o ran arwyddion twristiaeth ar draws y Sir.

<u>Amcanion arfaethedig y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth</u>

- Sicrhau bod Dyffryn Clwyd wedi'i arwyddo'n ddigonol o gefnffordd yr A55
- Sicrhau bod y Rhyl a Phrestatyn wedi'u harwyddo'n ddigonol o'r A55.
- Sicrhau bod digon o arwyddion ar gyfer atyniadau mawr yn Rhuthun a Dyffryn Dyfrdwy o gefnffyrdd yr A494 a'r A5, yn cynnwys rôl yr A483.
- Nodi a datblygu arwyddion ar gyfer cyfres o "lwybrau godidog i dwristiaid" yn Sir Ddinbych, sy'n ategu at Ffordd Cymru
- Darparu arwyddion dilynol addas yng nghanol trefi/pentrefi at gyrchfannau i dwristiaid

## Cefndir y Polisi

4.3. Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer pob cefnffordd yng Nghymru, yn cynnwys yr A55, yr A494 a'r A5 yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn golygu y gellir gosod arwyddion twristiaeth ar y rhwydwaith cefnffyrdd gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru'n unig. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bolisi ar gyfer arwyddion twristiaeth ar gefnffyrdd yn Awst 2013. Mae copi'n amgaeedig yn Atodiad A. Mae'r polisi hwn yn darparu meini prawf llym ar gyfer y math o gyrchfan i dwristiaid, yr isafswm o ran twristiaid a'r uchafswm pellter a ganiateir i'r gyrchfan o'r gefnffordd agosaf.

4.4. Mae gan y Cyngor bolisi hefyd ar arwyddion twristiaeth ar ffyrdd y Sir (nid yn gefnffyrdd) a gymeradwywyd yn 2006. Darperir copi yn Atodiad B. Fel polisi Llywodraeth Cymru, mae'n nodi meini prawf i benderfynu a yw cyrchfan i dwristiaid yn gymwys am arwyddion. Argymhellir adolygu'r polisi, gan fod y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth yn cael ei datblygu nawr.

4.5. Un o brif egwyddorion darparu arwyddion yw bod nifer yr arwyddion yn cael eu cadw mor isel â phosibl i osgoi annibendod diangen ac i sicrhau nad yw gyrwyr yn cael eu llethu â gwybodaeth, gan fod hyn yn gallu tynnu eu sylw oddi ar y ffordd, gyda chanlyniadau peryglus posibl. DDyma un o'r rhesymau yr ysgrifennir polisïau presennol, er mwyn osgoi gormodedd o arwyddion.

## Amcanion

4.6. Mae cynllun wedi'i ddatblygu i arwyddo Dyffryn Clwyd o'r A55, yn cynnwys "arwyddion dilynol" i'r cyrchfannau.  Mae cynlluniau sy'n dangos arwyddion arfaethedig yr A55 wedi'u cynnwys yn Atodiad C. Castell Rhuddlan, Castell Dinbych a Chadeirlan Llanelwy yw'r atyniadau wedi'u cynnwys ar yr arwyddion. Yn wreiddiol, fe wnaethom gynnig cynnwys Carchar Rhuthun hefyd, fodd bynnag, nid yw'n bodloni polisi Llywodraeth Cymru oherwydd nid yr A55 yw'r gefnffordd agosaf i Ruthun (yr A494 yw honno) ac oherwydd bod Rhuthun yn fwy na 10 milltir o'r A55. Mae gweithgor a ffurfiwyd gan Ann Jones AC wedi canfod cyllid ar gyfer oddeutu hanner o'r £150k sy'n ofynnol. Mae cynnig ar gyfer y gweddill wedi'i gyflwyno i Grŵp Buddsoddi Strategol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni wyddom eto a yw'r cynnig wedi bod yn llwyddiannus.

4.7. Roeddem yn cynnig datblygu cynllun i ddisodli arwydd twristiaeth allweddol presennol y Rhyl ar lôn gerbydau'r A55 i'r gorllewin yng Nghyffordd 27, gan ei fod mewn cyflwr gwael iawn. Byddai'r cynllun hefyd yn cynnwys arwydd newydd ar y lôn gerbydau i'r dwyrain yng Nghyffordd 23a, lle nad oes arwydd brown ar hyn o bryd i'r Rhyl. Gweler y lluniau a'r cynlluniau lleoliad yn Atodiad D. Argymhellir hefyd y byddai SC2 yn un o'r atyniadau a gynhwysir ar yr arwyddion newydd. Mae cynnig ar gyfer yr arwydd wedi'i gyflwyno i Grŵp Buddsoddi

Strategol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni wyddom eto a yw'r cynnig wedi bod yn llwyddiannus.

4.8. Gosodwyd arwydd twristiaeth allweddol newydd i Brestatyn ar yr A55 yng Nghyffordd 31 yn 2016. Mae'r arwyddion twristiaeth yn y dref wedi'u hadnewyddu dros y misoedd diwethaf. Fel rhan o'r Strategaeth ddrafft, rydym yn cynnig ystyried y potensial am arwydd brown i Brestatyn ar lôn gerbydau'r A55 i'r dwyrain, yng Nghyffordd 24 (gweler Atodiad E am ragor o fanylion).

4.9. Bydd angen adolygu amod yr arwyddion twristiaeth presennol ar gefnffyrdd yr A494 a'r A5 ac i ystyried a yw'r atyniadau yn Rhuthun a Dyffryn Dyfrdwy wedi'u harwyddo'n ddigonol o'r rhwydwaith cefnffyrdd, yn amodol ar bolisi Llywodraeth Cymru ar arwyddion twristiaeth ar gefnffyrdd. Mae rôl yr A483 hefyd yn bwysig a dylid ei hystyried hefyd.

4.10. Mae *Croeso Cymru* wedi nodi tri llwybr ar draws Cymru, fel rhan o brosiect Ffordd Cymru. Un o'r llwybrau hyn yw "Ffordd Gogledd Cymru", sy'n dilyn yr A55 yn fras. Fodd bynnag, i ategu at y brif ffordd hon, mae nifer o lwybrau cylchol wedi'u datblygu drwy Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol Croeso Cymru gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, ar y cyd â Phrosiect 10 mlynedd Ffordd Cymru. Bydd y llwybrau hyn yn apelio i ymwelwyr sy'n dymuno archwilio ein rhanbarth ymhellach ac aros yn yr ardal; byddant yn arwain ymwelwyr at atyniadau llai i dwristiaid, na fyddai'n eu cymhwyso ar gyfer arwyddion o'r rhwydwaith cefnffyrdd.

4.11. Mae gweithgor Swyddogion/Aelodau wedi'i sefydlu i barhau i ddatblygu'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth. Mae'r gweithgor yn cynnwys dau aelod o bob Grŵp Ardal Aelodau. Cafwyd cyfarfod cyntaf y gweithgor 24 Chwefror 2020.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth yn un o'r camau a geir yn Strategaeth Twristiaeth Sir Ddinbych. Bydd hefyd yn cyfrannu at Flaenoriaeth Gorfforaethol

Cysylltu Cymunedau, gan fod arwyddion o ansawdd uchel yn gydran o isadeiledd da.

## 6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

6.1. Yn Sir Ddinbych ac ar draws y DU, mae arwyddion Twristiaeth fel arfer yn cael eu hariannu gan weithredwr yr atyniad neu'r cyfleuster i dwristiaid. Yn ogystal â'r gost o wneud a gosod yr arwydd, mae'r gost i weithredwyr hefyd yn cynnwys costau dylunio a lwfans ar gyfer mân waith cynnal a chadw yr arwydd yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, y Cyngor yw gweithredwr yr atyniad ac mae'n cyfrannu'n unol â hynny.

6.2. Nid oes cyllideb bresennol gan y Cyngor i ddarparu arwyddion twristiaeth newydd ar hyn o bryd, na chyllideb ar gyfer disodli'r arwyddion twristiaeth presennol. Bydd gweithredu'r cynlluniau arwyddion a nodir yn y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth felly'n dibynnu ar gyllid gan weithredwyr twristiaeth y sector preifat, lle bydd yr arwyddion ar gyfer atyniadau wedi'u rhedeg yn breifat, neu gan gyllid cyfalaf y Cyngor yn achos atyniadau a redir gan y Cyngor.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Cynigir bod Asesiad o Effaith ar Les yn cael ei gynnal yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, wrth i'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth gael ei datblygu ymhellach.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

8.1. Codwyd yr angen am Strategaeth Arwyddion Twristiaeth yn wreiddiol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym Mai 2018.

8.2. Cynigir ein bod yn ymgysylltu â Fforwm Twristiaeth Sir Ddinbych yn ystod haf 2020 i geisio safbwyntiau gweithredwyr twristiaeth lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r Cyngor yn gorfod blaenoriaethu ymrwymiadau cyllid yn sgil y cyllid sydd ar gael a phwysau sy'n cystadlu, fel Gofal Cymdeithasol, Ysgolion, Priffyrdd er

enghraifft.  Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyfalaf ar gyfer 2020/21 yn cynnwys cyllid sy'n gyfanswm o £150k ar gyfer cynlluniau arwyddion traffig yn Nyffryn Clwyd a chynlluniau arwyddion twristiaeth brown y Rhyl, y gofynnwyd amdanynt gan y gwasanaeth. Mae gwneud y mwyaf o incwm allanol yn yr ardal hon yn cael ei groesawu.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Y brif risg yw y gallai methu diogelu cyllid atal y ddarpariaeth o'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi grymoedd Craffu o ran datblygu ac adolygu polisi.

**Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd.

Ffôn: 01824 706959




**Image of existing Rhyl Key Brown Tourism Sign on A55 Westbound Carriageway at Junction 27**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **4 Mai 2023** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Phriffyrdd /Andy Clark, Pennaeth Dros Dro Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Tim Towers, Rheolwr Risg ac Asedau / Andy Clark** |
| **Teitl** | **Gweithgor Risg Llifogydd / Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am ofyniad Cyngor Sir Ddinbych i lunio Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd erbyn 2024.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am waith sydd wedi cael ei gynnal ers i'r adroddiad diwethaf gan weithgor aml asiantaethau a pherchnogion glannau'r afon gael ei rannu gyda'r Pwyllgor ar 10 Mawrth 2022.

2.2. Gofyn i'r Pwyllgor gefnogi cynnig i ailsefydlu Gweithgor Cyngor Sir Ddinbych i oruchwylio'r gwaith o lunio Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i ailsefydlu Gweithgor Cyngor Sir Ddinbych i oruchwylio'r gwaith o lunio Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd.

## 4. Manylion yr adroddiad

**Y wybodaeth ddiweddaraf ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor**

4.1. Cafodd adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 10 Mawrth 2022 er mwyn tynnu sylw at gasgliadau Gweithgor aml asiantaeth Rheoli Risg Llifogydd a Pherchnogion Glannau'r Afon. Mae'r adroddiad yn archwilio dulliau posibl o gryfhau sianeli cyfathrebu ac adeiladu cysylltiadau gweithio effeithiol rhwng pawb a phob sefydliad y mae ganddynt gyfrifoldeb am reoli'r perygl o lifogydd o gwmpas afonydd a dyfrffosydd Sir Ddinbych. Penderfynodd y pwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad, gan gynnwys yr argymhellion canlynol:

4.1.1. bod Gweithgor Perygl Llifogydd yn cynnwys yr awdurdodau rheoli perygl llifogydd a chynrychiolwyr perchnogion tir yn parhau i gyfarfod y flynyddol er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion a disgwyliadau ac adrodd yn ôl ar y trafodaethau hyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

4.1.2. bod y dudalen Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ar wefan y Cyngor yn cael ei hail-lansio i gynnwys:

a) dolenni i dudalennau gwe perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru; ac

b) eglurhad ar gyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg a Pherchnogion Glannau Afonydd,

4.1.3. creu taflen wybodaeth/llythyr gwybodaeth ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ar gyfrifoldebau perchnogion tir glannau afon, a'i dosbarthu/ddosbarthu i eiddo cyfagos i Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn; a

4.1.4. bod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cael ei gyfieithu a'i anfon at Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned i'w gynnwys ar eu gwefannau.

4.2. Mewn cysylltiad â'r camau yma, dyma'r wybodaeth ddiweddaraf:

4.2.1 Nid yw'r Gweithgor Risg Llifogydd wedi cyfarfod yn ddiweddar ond mae'r papur presennol yma wedi'i ddylunio i roi ysgogiad a ffocws.

4.2.2 Gan ein bod wedi colli aelod o staff, ni fu'n bosibl i wella cyfathrebu sy'n ymwneud â thudalen we na Chynghorau Tref a Chymuned, ond byddant yn parhau fel cam gweithredu y byddwn yn ceisio ei gyflawni yn y misoedd nesaf.

4.2.3 Mae cyfarfodydd a thrafodaethau gyda Swyddogion o CSDd ac o Gyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu cynnal ac mae cynnydd yn digwydd. Mae'r ddau sefydliad wedi comisiynu gwaith i edrych ar y mater a rhagwelir y bydd dogfen ddrafft ar gael i'w rhannu'n fuan.

**Cynnig i ailsefydlu Gweithgor Rheoli Risg llifogydd**

4.3. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i bob awdurdod lleol lunio a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd yn ystod 2024. Mae swyddogion yn cynnig sefydlu Gweithgor dan arweiniad aelodau i oruchwylio'r gwaith o lunio ein Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd. Mae fersiwn ddrafft o Gylch Gorchwyl ynghlwm yn Atodiad A.

4.4. Mae yna Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd presennol sydd wedi bod ar waith ers 2014 ond mae yna ofyniad erbyn hyn i edrych arni eto, i'w diwygio a'i haddasu i greu un newydd. Ar gychwyn y ddogfen honno, roedd y Crynodeb Gweithredol yn cynnwys y canlynol:

*Bydd y Strategaeth Leol yn cyd-fynd ac yn cefnogi'r Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n amlinellu fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordirol gyda'r nod o gydbwyso anghenion cymunedau, yr economi a'r amgylchedd. Mae Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru) yn nodi'r amcanion canlynol:*

*1. Lleihau'r effeithiau o lifogydd ac erydu arfordirol i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;*

*2. Codi ymwybyddiaeth o berygl o lifogydd ac erydu arfordirol ac annog pobl i fod yn rhan o'r ymateb i hynny;*

*3. Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol, a;*

*4. Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf.*

Er ei bod yn bosibl bod y paramedrau wedi cael eu newid, fe fydd y canlyniadau dymunol ar gyfer Sir Ddinbych yn eu hanfod yr un fath.

4.5. Rhan bwysig o’r ddogfen yw sicrhau ei fod yn cysylltu gyda dogfennau Strategol eraill. Yn eu mysg bydd y Strategaethau Llifogydd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, felly fe fydd hyn yn ddatblygiad o’r gwaith a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen blaenorol.

4.6. Mae cyfathrebu’r Strategaeth newydd yn elfen allweddol ond mae hi’n debygol o fod yn ddogfen eithaf hir, felly’r bwriad fydd gweithio gydag Aelodau i greu dogfen gryno sy’n haws i’w darllen er mwyn gallu deall egwyddorion yn haws.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

5.1. Mae’r cynnig yn cefnogi thema o’r enw “Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd” yng Nghynllun Corfforaethol 2022-27. Mae hyn yn tynnu sylw yn benodol at yr angen i “liniaru a gweithio gyda chymunedau i ymdopi gydag effeithiau newid hinsawdd”. Mae hefyd yn nodi ein bod yn anelu i “gefnogi cymunedau i liniaru ac ymdopi gydag effeithiau newid hinsawdd…drwy ddarparu cynlluniau i leihau risg llifogydd arfordirol a mewndirol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i reoli tir ger dyfrffyrdd.” Bydd ein Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd yn egluro sut y byddwn ni’n mynd ati i gyflawni’r amcanion hyn.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd y gost o lunio Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd yn cael ei dalu o gyllideb refeniw bresennol y gwasanaeth.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Ni fydd angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn, ond fe fydd angen un i lunio’r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd. Fe fyddai’r Gweithgor arfaethedig yn rhan wrth lunio’r Asesiad o Effaith ar Les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Fe ymgynghorwyd â’r Aelod Arweiniol ac mae o’n cefnogi’r cynnig i sefydlu Gweithgor at y diben o lunio Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae hi’n bwysig bod gwasanaethau yn aros o fewn eu cyllidebau yn ystod y cyfnod yma o gyfyngiadau ariannol. Mae dyraniadau ar gyfer pob gwariant yn y dyfodol yn cael eu hadolygu ar gyfer 24/25 a thu hwnt.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae yna fân risgiau sy’n gysylltiedig â’r cynnig ar gyfer ymgynghori eang o fewn cyfnod byr o amser ond fe ellir lliniaru’r rhain drwy reoli prosiect yn dda a threfnu cyfarfodydd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adran 7.4.1 (d) ac (e) o Gyfansoddiad y Cyngor

Atodiad A

**Grŵp Tasg a Gorffen Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd**
**1. Aelodaeth**

6 aelod etholedig – cynrychiolwyr i'w penodi gan bob un o Grwpiau Ardal Aelodau'r Cyngor

**2. Mewnbwn Swyddogion**

Swyddogion o adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor, ynghyd â Swyddogion o Adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ac eraill fel y bo'n briodol.

**3. Pwrpas yr Astudiaeth**

Edrych ar opsiynau a chanlyniadau sydd eu hangen o fewn y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd. Mae'r ddogfen hon yn ofyniad Statudol sydd ar bob Cyngor gan Lywodraeth Cymru ac mae angen ei chadarnhau yn 2024.

**4. Cwmpas yr Astudiaeth**

I:

- (i) archwilio ac adolygu'r ddogfen Strategaeth Risg Llifogydd gyfredol a gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau a gwelliannau.
- (ii) Adolygu unrhyw newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth a chyfrannu sut y gellir rhoi'r rhain ar waith yn Sir Ddinbych.
- (iii) Gweithio gyda swyddogion perthnasol i ddeall sut y gellir gweithredu'r penderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw oblygiadau o ran y gyllideb a pholisi.
- (iv) Defnyddio eu gwybodaeth leol am faterion llifogydd y gallai Strategaeth newydd ei helpu i leddfu/ddatrys y rhain.
- (v) Adeiladu ar waith da blaenorol o ran trafod gyda budd-ddeiliaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, perchnogion tir ac ati, er mwyn sicrhau bod Strategaeth newydd yn cysylltu gyda'r grwpiau yma.

**5. Amserlenni**

Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn nodi'r amserlenni i gynnal y gwaith ac yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau beth yw'r amserlen ddisgwyliedig. Dylid nodi serch hynny y bydd angen ymgynghoriad ehangach ar y ddogfen strategaeth ddrafft cyn ei chadarnhau yng ngwanwyn 2024, felly bydd yn rhaid i unrhyw gyfarfodydd gyd-fynd â hyn.

**6. Llywodraethu**

